Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant
Minister for Children and Social Care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - P/HID/1565/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2 Mai 2018

Annwyl Lynne

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yr oeddwn yn bresennol ynddo ar 18 Ebrill, cytunais i ysgrifennu atoch er mwyn rhoi nodyn ar y sail resymegol dros y cynnig gofal plant sy'n dechrau yn y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn dair oed ac asesiad Llywodraeth Cymru ar effaith bosibl y dull hwn ar blant a gaiff eu geni yn yr haf.

Fel y gwyddoch, dwy elfen sydd i'r cynnig gofal plant: yr hawl sydd gan bob plentyn 3-4 oed ar hyn o bryd i gael addysg gynnar a'r oriau ychwanegol o ofal plant a ddarperir ar gyfer rhieni sy'n gweithio. Mae'r adeg y mae plant yn dod yn gymwys i gael gofal plant drwy'r cynnig yn cydredeg â'r adeg y maent hefyd yn dod yn gymwys i gael eu haddysg gynnar, sef y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod dwy elfen y cynnig yn dechrau ar yr un pryd a bod y cynnig yn gyffredinol yn hawdd i rieni, darparwyr ac awdurdodau lleol ei ddeall.

Nid yw plant yn gymwys ar gyfer y cynnig mwyach unwaith eu bod yn dechrau addysg amser llawn. Dyna'r adeg y maent yn dechrau cael dros 30 awr o addysg gynnar bob wythnos.

Bydd nifer y tymhorau y gall plentyn fanteisio ar y cynnig gofal plant yn dibynnu ar ba bryd y ganed y plentyn. Fodd bynnag, byddai safoni nifer y tymhorau y gall plant gael gofal plant o dan y cynnig yn creu annhegwch yn y system, gan y gallai rhai rhieni fanteisio ar un elfen o'r cynnig yn gynt na rhieni eraill. Byddai hefyd yn golygu na fyddai dwy elfen y cynnig, addysg gynnar a gofal plant, yn cydredeg mwyach ac na allai rhai rhieni fanteisio ar ddwy elfen y cynnig o'r un adeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn hefyd achub ar y cyfle hwn i egluro fy sylwadau yn y pwyllgor ynglŷn â'r ymrwymiad i gynyddu'r Ddarpariaeth Gofal Plant Cymraeg drwy gyllido Mudiad Meithrin i greu grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg newydd. Hoffwn egluro mai sefydlu 40, yn hytrach na 30, o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg newydd erbyn 2021 yw'r ymrwymiad. Mae hyn yn rhan o darged ehangach i sefydlu 150 o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg newydd dros y degawd nesaf.

Yn gwir

Huw Irranca-Davies AC/AM
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant
Minister for Children and Social Care